### Llwybr X - heibio i Dŷ Sutton

Ewch i'r dde ac ar hyd y brif heol ac yna i'r chwith yn fuan, i Grove Road. Cerddwch ar hyd yr heol hon i fyny llethr ysgafn am 1/2 milltir nes i chi gyrraedd camfa ar y dde. Ewch dros y gamfa honno a cherddwch gydag ymyl y cae at glwyd ac arwyddbost ❾. Ewch ymlaen i'r chwith ac ar draws y cae o'r chwith i'r dde nes cyrraedd clwyd fetel fechan rhwng dau adeilad (sef fferm Tyn y Caia). Defnyddiwch y cyfeirbwyntiau er mwyn dod o hyd i ffordd drwy'r closydd at y gamfa sy'n edrych dros adeilad carreg lwyd a adwaenir fel Tŷ Sutton. Cerddwch i lawr y rhiw hyd at Dŷ Sutton ❿ ar draws rheilffordd a phont ddeniadol i mewn i'r clos. Ewch ymlaen drwy'r clos a'r clwydi a nodwyd â chyfeirbwynt, yn syth ymlaen drwy'r tri chae nesaf a thros bob camfa at fwlch yn y clawdd sy'n arwain at y pedwerydd cae. Ewch ymlaen i'r un cyfeiriad gan gadw'n agos at y clawdd terfyn ar y dde nes i chi gyrraedd camfa ddwbl. Ewch ar draws y cae nesaf i lawr llethr at bont garreg.


(Yn y fan honno mae'r llwybr yn ymuno â Llwybr Y). Croeswch y bont a'r gamfa, gwyrwch i'r chwith ac ewch drwy fwlch yn y clawdd ac ar draws cae i gamfa (sy'n dwyn y dyddiad 1938). Croeswch ddau gae arall gan ddefnyddio'r camfeydd yng nghorneli chwith pellaf y caeau a nodwyd â chyfeirbwyntiau, ac ewch i'r dde ar draws y cae olaf nes i chi gyrraedd llwybr sydd wedi'i farcio'n eglur ⓫. Gwyrwch i'r dde er mwyn cyrraedd y brif heol. Yn y fan honno, trowch i'r dde ac ewch ymlaen drwy bentref y Wig ac yn ôl at eich man gychwyn.



*Llanfihangel Tregolwyn*

Ffotograff (H) G.Woosnam

## LLEOLIAD Y DAITH GERDDED MEWN PERTHYNAS Â LLWYBR TREFTADAETH Y MILENIWM VALEWAYS




Mae Llwybr Treftadaeth y Mileniwm Valeways yn ymestyn am fwy na 100 cilomedr ac yn cwmpasu dros 6000 o flynyddoedd o hanes. Bydd yn ymlwybro drwy nifer o dirweddau prydferth iawn. O ben gogleddol y llwybr, mae golygfeydd ar draws holl ardal Blaenau Morgannwg, ac yn y de bydd y llwybr yn dilyn arfordir clogwynog trawiadol.

Mae'r Llwybr yn ymrannu'n 16 o ddarnau sy'n hawdd eu dilyn a gellwch gerdded pob un ohonynt mewn ychydig o oriau'n unig. Mae'r tir o gwmpas yn amrywiol, yn drawiadol yn aml ac yn llawn olion hanesyddol.

Os nad ydych erioed wedi ymweld â'r rhan hon o Gymru, byddwch wrth eich bodd yn cerdded drwy'r tiroedd isel ffrwythlon sy'n ffinio â'r Arfordir Treftadaeth godidog a'i draethau hardd. Mae'r llwybr yn cynnwys llawer o nodweddion hanesyddol diddorol dros ben sy'n amrywio o siambrau claddu cynhanesyddol i gestyll, eglwysi a phlastai mawreddog.

Mae Valeways wedi cyhoeddi teithlyfr Llwybr Treftadaeth y Mileniwm. Mae'r llyfr lliwgar hwn yn disgrifio 16 rhan y daith gerdded ac yn cael ei gyflwyno mewn pecyn sydd hefyd yn cynnwys 16 o fapiau A3 cyfatebol. Cewch ei brynu oddi wrth Valeways am £8.49 sy'n cynnwys cludiant a phacio.

### Llwybr Y - heibio i Gwrt Newydd

Trowch i'r dde a cherddwch ar hyd y brif heol drwy bentref deniadol Llandŵ heibio i Eglwys y Drindod Sanctaidd ⓬, ar y dde a'r Tŷ Mawr (The Great House) ⓭ ar y chwith. Ewch o dan bont y rheilffordd ac allan i'r tir agored. Cyn pen dim, byddwch yn cyrraedd Y Porthordy (The Lodge) sy'n sefyll ar y groesffordd fach lle mae tri llwybr troed yn cyfarfod. Trowch i'r chwith. Dilynwch y llwybr concrit sy'n arwain i fyny llethr ysgafn at fferm Cwrt Newydd. Lle mae'r rhiw'n dechrau mynd yn serthach, mae'r llwybr troed yn gwyro i'r dde oddi ar y rhodfa ac yn arwain ar draws porfeldir at gamfa gyferbyn â'r fferm ei hun. Ewch dros y gamfa honno, gwyrwch i'r dde ac ewch ymlaen i gamfa arall ac i gae y bydd yn rhaid i chi ei groesi er mwyn cyrraedd y gamfa yn y gornel chwith bellaf. Cerddwch ymlaen i'r un cyfeiriad at y cae nesaf ac ymlaen i bont garreg ar y clawdd terfyn gwaelod. O'r fan honno ymlaen mae'r llwybr yr un fath yn union â Llwybr X, felly dilynwch y cyfarwyddiadau sydd wedi'u tanlinellu yn y disgrifiad uchaf er mwyn cwblhau'r daith gerdded.

### Llwybr Z - heibio i North Lodge

Dilynwch Lwybr Y at y groesffordd fach wrth y Porthordy. Trowch i'r dde yn y fan honno ac ewch dros gamfa ac ar draws y cae i'w gornel chwith lle mae pompren. Ewch ymlaen i'r un cyfeiriad a dringwch drwy gae gweddol fawr at ddwy gamfa ar bob ochr i gornel y cae. Ar ôl mynd heibio i'r rhain, cerddwch gan gadw y clawdd terfyn ar eich ochr chwith nes i chi gyrraedd dwy gamfa arall ar bob ochr i lwybr. Ewch dros y rhain a chroeswch y cae nesaf gan wyro fymryn bach i'r dde nes i chi gyrraedd camfa yn y gornel dde isaf ⓮. Cerddwch ar hyd y clawdd terfyn, gan wyro i'r chwith at gamfa arall. Wedyn ewch ymlaen i lawr y rhiw drwy gae hir at yr heol wrth ymyl North Lodge. Trowch i'r dde a dilynwch y cyfeiriadau perthnasol ar ddechrau'r llyfryn teithio er mwyn cerdded tuag at Dregolwyn.



*Pont ger Llandŵ*

Ffotograff (H) G.Woosnam

## NODWEDDION Y DAITH GERDDED

- **Eglwys y Wig a'r Felin Wynt**
- **North Lodge**
- **Llys Llanffa**
- **Llanfihangel Tregolwyn**
- **Tŷ Sutton**
- **Olion Canoloesol**
- **Golygfeydd cefn gwlad**



*Bythynnod o ddechrau'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg yn Llandŵ*

Ffotograff (H) A.Wilson

## DILYNWCH GÔD Y CERDDWYR

- Gwyliwch rhag tân bob amser
- Clowch bob clwyd
- Cadwch gŵn o dan reolaeth dyn
- Dilynwch lwybrau cyhoeddus wrth groesi tir ffermydd
- Croeswch ffensys, waliau a pherthi wrth glwydi a chamfeydd
- Ewch â'ch ysbwriel adref
- Gwarchodwch yr holl fywyd gwyllt, planhigion a choed

make tracks with Valeways

Elusen gofrestredig yw Valeways sy'n cydweithio â chymunedau lleol er mwyn ailagor hen lwybrau a chreu rhwydwaith o deithiau cerdded cylch difyr ar draws Bro Morgannwg sy'n cysylltu trefi a phentrefi â'r wlad o'u hamgylch a mannau o ddiddordeb. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl wirfoddolwyr a roddodd yn hael o'u hamser er mwyn darparu'r daith gerdded hon i chi ei mwynhau.

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

**Partneriaeth Valeways** - Diolch o galon i Gyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cefn Gwlad Cymru am barhau i'n cefnogi.

Cefnogwyd gan
Supported by
CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

cerdded llwybr iechyd
walking the way to health

Environment Wales
Amgylchedd Cymru

Valeways, Uned 7, Canolfan Mentrau Cymunedol y Barri,
Heol Skomer, Y Barri CF62 9DA

Ffôn/ffacs: 01446 749000
E-bost: info@valeways.org.uk
Gwefan: http//www.valeways.org.uk

Elusen Gofrestredig Rhif 1062031 Cwmni Cofrestredig Rhif 333088

*Teithiau Cerdded 49 a 50, y Wig*

# Y Fro Gudd

Pellter: 7 milltir.



*Melin Wynt yn y Wig*

make tracks with Valeways

# Teithiau Cerdded 49 a 50, y Wig


# Y Fro Gudd



*Pwll ychydig i'r gogledd i Lys Llanffa*

**Pellter** 7 neu 8 milltir (chwiliwch ar y mapiau am deithiau cerdded byrrach).
**Map** Map Ordnans Explorer 151 Caerdydd a Phen-y-Bont ar Ogwr.
**Parcio** wrth ymyl y ffordd neu mewn cilfach barcio ar ddechrau'r daith yn y Wig (cyfeirnod grid: 924724) neu wrth ymyl y ffordd yn Nhregolwyn a Llandŵ.
**Trafnidiaeth Gyhoeddus** Bysiau i'r Wig.
**Bwyd a Diod** siop y pentref a thafarn y Sycamore Inn yn Nhregolwyn a siop y pentref a thafarnau'r Lamb and Flag a'r Star Inn yn y Wig
**Toiledau** yn y mannau sy'n gwerthu bwyd a diod.

**MAN CYCHWYN** wrth ymyl dafarn y Star Inn yn y Wig fel y nodwyd isod neu ble bynnag sydd orau gennych.




- Man Cychwyn
- Llwybr y Daith Gerdded
- Llwybr Dewisol
- Heol
- Afon neu Nant
- Rheilffordd
- Ardal Adeiledig
- Adeilad Unigol
- Eglwys
- Croesfan Reilffordd
- Melin Wynt
- Bwyd a Diod

## Y LLWYBR

Ⓒ Cymerwch yr heol i Ewenni rhwng tafarn y Star Inn a siop y pentref. Ar yr ochr dde, lle daw'r rhes o dai i ben, trowch i'r dde ac ewch dros y gamfa bren newydd. Wedi cyrraedd y cae, trowch i'r chwith a chan gerdded ochr yn ochr â'r clawdd ar y chwith i bob pwrpas, anelwch am y ffens a'r dalennau sinc braidd yn simsan yn y pen pellaf. Yn y fan honno, ewch dros y gamfa, ar draws llwybr ac ymlaen at gamfa garreg isel. Ar ôl dringo dros honno, gwyrwch i'r dde a cherddwch ymlaen at y gamfa garreg ddwbl. Dringwch y llethr wedyn gan gadw i'r chwith i ddau bostyn unionsyth, yna cerddwch dros ael y bryn a chan gadw'r ysgubor ar eich ochr dde ewch ymlaen at yr ail gamfa ddwbl. O'r fan honno, ewch i lawr y rhiw rhwng dau gae a thros ddwy gamfa tuag at gasgliad o adeiladau carreg (Tŷ Newydd a Threglement ❷). Ewch i'r dde wedyn rhwng y bythynnod a'r tŷ fferm ac yna i'r chwith yn sydyn ac ar hyd llwybr graean at gamfa ar eich ochr dde. Cerddwch ar draws y cae nesaf i lawr y rhiw o'r chwith i'r dde nes cyrraedd camfa wrth ochr llwybr fferm arall. Ewch i'r chwith heibio i North Lodge ❸ ac i'r dde'n fuan wedyn lle mae'n bosibl croesi Nant Treglement, a cherddwch ymlaen at y gamfa ar ei glan.

Ewch i fyny'r rhiw o'r fan honno, gan anelu am y pwynt ar y gorwel lle mae'r coed yn dod i ben. Ychydig ymhellach ymlaen dewch o hyd i gamfa arall ar y dde lle gellwch groesi'r rheilffordd. Ewch ar draws y cae nesaf gan wyro fymryn bach i'r chwith (gwelwch Dregolwyn o'ch blaen) nes i chi gyrraedd camfa ddwbl yng nghornel waelod y cae. Trowch i'r chwith ac anelwch am yr adeilad sy'n eich wynebu ar y llethr (sef Llys Llanffa). Ar y ffordd, byddwch yn croesi pont dros afon Alun a chamfa arall ac yna'n cerdded ar hyd rhan o Lôn Werdd ❹ sy'n mynd i fyny rhiw.

Dewch at nifer o gamfeydd gyda'i gilydd yn y fan honno. Anwybyddwch yr un ar y chwith: ewch dros y gamfa bren gyntaf, wedyn y gamfa garreg ar y dde. Cerddwch ymlaen i gyfeiriad y dwyrain o flaen Llys Llanffa ❺. Croeswch dri chae ar rimyn o dir sy'n fwy neu lai'n syth gan gerdded wrth ochr y clawdd ar y chwith. Yna croeswch bedwerydd cae ar hyd llwybr amlwg nes i chi gyrraedd camfa sy'n agor ar heol wledig. Trowch i'r dde. Ar ôl 1/4 milltir ewch i'r chwith wrth ymyl camfa ger gorsaf bwmpio. Cadwch yn agos at y clawdd nes i chi gyrraedd camfa arall. Ewch drosti, yna gwyrwch i'r dde a dringwch y rhiw gan gerdded o amgylch terfynau adeilad fferm Tŷ Maen rhwng byngalo a'r fferm at heol.

Gwyrwch i'r dde a dilynwch yr heol heibio i Eglwys Llanfihangel ❻ a thafarn y Sycamore Inn ar y chwith a bwthyn to gwellt a'r Hen Ysgoldy ar y dde. Ewch yn eich blaen hyd at fan lle mae'r heol yn fwy gwastad, a gwelwch gamfa garreg a pholyn telegraff (Rhif 39) ar y chwith. Gyferbyn â'r rhain, ewch i'r dde ar hyd llwybr tŷ preifat (Heddfan) ac i'r dde wrth y garej nes i chi gyrraedd camfa risiau. (Gwyliwch rhag tarfu ar y trigolion) ❼.

Ewch i lawr y llethr wedyn at gamfa ddwbl ar y dde, heibio i'r llyn bedyddio, dros bont a chamfa ddwbl arall ac ar draws cae at glwyd. Ewch drwy'r glwyd a thros grib y cae nesaf gan ddilyn y gwifrau uwchben.

Dringwch dros gamfa i'r cae nesaf. Wedyn anelwch am y gamfa ar waelod y cae hwnnw yn y gornel dde. (Mae'r hawl dramwy gyhoeddus ei hun yn gwyro i'r dde ac yn mynd i lawr y rhiw). Trowch i'r chwith yn y fan honno a dilynwch yr heol am ychydig, wedyn trowch i'r dde wrth y gamfa wrth ymyl gorsaf bwmpio Stembridge Brook. Dilynwch yr heol hyd at gamfa arall gerllaw, wedyn cerddwch yn eich blaen heibio i goeden grebachlyd ar y dde nes cyrraedd pompren.

Ewch yn fwy neu lai'n syth ymlaen, i fyny rhiw ar y dechrau, gan groesi tri chae a phob camfa nes i chi gyrraedd arwyddbost mewn man sy'n edrych dros bentref Llandŵ. Ewch yn eich blaen i lawr y llethr a chroeswch y bont garreg i'r pentref ei hun. Gyferbyn, gwelwch nifer o fythynnod (❽ a gwaith carreg arnynt). O'r fanno honno mae dewis o ffyrdd yn ôl i'r Wig neu Dregolwyn os mai dyna oedd man gychwyn eich taith.

**Llwybrau dewisol:**
X, heibio i Dŷ Sutton, sy'n ychwanegu rhyw filltir at y daith; Y, heibio i Gwrt Newydd, (y ffordd fyrraf yn ôl i'r Wig), neu Z, yn ôl i Dregolwyn heibio i North Lodge (gwelwch y map) cewch ddisgrifiadau dros y dudalen.

## LLEODD O DDIDDORDEB

❶ **Y Wig** - Mae'n debyg bod enw'r pentref yn tarddu o'r gair Eingl-Sacsoneg 'wic' sy'n golygu pentref bach. Datblygodd y pentref o gwmpas dau glwt o borfa sydd i'w cael o hyd. Mae rhai teuluoedd amaethyddol wedi hen sefydlu yn yr ardal ac yn byw yn ei chyffiniau ers yr ail ganrif ar bymtheg. Mae **eglwys Sant Iago'n** dyddio'n ôl i'r ddeuddegfed ganrif. Mae capel y Bedyddwyr hefyd a godwyd ym 1792. Adeiladwyd y **melinau gwynt** ar fan uchaf yr ardal er mwyn iddynt gael manteisio ar y gwyntoedd cryfion.

❷ Dyma ganol stad Treglement ers llawer dydd a ddatblygwyd gan deulu Franklen yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Chwalwyd y stad am nad oedd etifedd.

❸ Adeilad Fictorianaidd yw **North Lodge**. Sylwch fod wyneb y caeau ar bob ochr i'r Lôn Werdd hon yn anwastad a phantiog. Y rheswm am hyn yw bod yr ardal unwaith yn safle pentref gweddol fawr sy'n wag ers tro byd bellach. Roedd melin fach wrth y nant ac eglwys yn y cae ar y dde.

❺ Mae **Llys Llanffa** yn adeilad rhestredig Gradd II. Mae'n dyddio'n ôl i ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

❻ Mae'r **eglwys** yn adeilad rhestredig Gradd B ac yn dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg yn bennaf.

❼ Mae golygfa ardderchog o'r fan hon gyda nant Tregolwyn yn union o'ch blaen. Sylwch ar y rhimynnau o dir sy'n ymestyn tuag at y nant hon o ffermydd gweithredol a segur sy'n dangos pa mor werthfawr oedd y nant yn y gorffennol fel ffynhonnell ddŵr.
Ar y gorwel, ryw 45° i'r dde, mae **melin** y Wig.
Mae'r Llyn Bedyddio'n dyddio'n ôl i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac roedd yn perthyn i Gapel lleol y Bedyddwyr.

❽ Codwyd y bythynnod hyn ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ar gyfer gweithwyr tŷ ar stad Treglement ac adeiladwyr rheilffyrdd.

❾ Y tu ôl i chi mae golygfeydd bendigedig o'r bryniau sy'n codi uwchben y cymoedd glo ac ar y chwith mae siediau awyrennau hen faes awyr Llandŵ'n dod i'r golwg. Ar y chwith ewch heibio i **gaer danddaearol** a fu'n rhan o amddiffynfeydd yr ardal strategol bwysig hon yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae un arall ar bwys Tyn y Caia.

❿ Mae **Tŷ Sutton** yn adeilad rhestredig Gradd II*. Fe'i codwyd gan Ed. Turberville ar ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg.

⓫ Mae ffermdy Canoloesol ar y dde

⓬ Mae'r **Eglwys Normanaidd** yn adeilad Rhestredig Gradd B sy'n dyddio'n ôl i'r ddeuddegfed ganrif neu'r drydedd ganrif ar ddeg.

⓭ Mae'r **Tŷ Mawr** yn dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg.

⓮ Ar y chwith dylai fod yn bosibl i chi weld adfeilion **Eglwys Saint Andras**. Trosglwyddwyd yr eglwys hon i ofal Abaty Sant Pedr, Caerloyw yn ystod y ddeuddegfed ganrif.